



Polisi Rhyddhad Caledi Ardrethi Busnes

RHEOLI FERSIWN

Fersiwn	Dyddiad Fersiwn	Awdur	Disgrifiad
1	1 Chwefror 2016	Richard Mallon	Cyflwyniad i'r polisi

CYNNWYS

Adran	Tudalen
Cyflwyniad a Diffiniad o Galedi	3
Egwyddorion y Polisi	3-4
Y Broses Ymgeisio	4-6
Cyfyngiadau ar Ddyfarnu Rhyddhad Caledi	6
Amodau a Dyletswyddau'r talwr ardrethi	6-7

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi hawl i'r Cyngor ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng neu ddileu ardrethi busnes os yw'n fodlon y byddai'r talwr ardrethi yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny a'i bod yn rhesymol dyfarnu rhyddhad, o ystyried buddiannau trethdalwyr y Cyngor.
- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn talu 75% o gostau ariannu'r rhyddhad hwn, ac mae'r Cyngor yn talu'r 25% sy'n weddill.

2.0 Caledi

- 2.1 Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi diffiniad o galedi, ond mae'r Cyngor yn pennu caledi fel:
 - Gall y talwr ardrethi fodloni'r Cyngor nad yw'n gallu bodloni ei rwymedigaeth Ardrethi Busnes llawn neu ran o'i rwymedigaeth.
 - Gall y talwr ardrethi ddangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i fodloni ei rwymedigaeth Ardrethi Busnes llawn.
 - Gall y talwr ardrethi brofi nad yw ei amgylchiadau presennol yn debygol o wella yn ystod y 12 mis canlynol, gan ei gwneud yn amhosibl talu'r Ardrethi Busnes.
 - Nid oes gan y talwr ardrethi fynediad at asedau y gellid eu gwireddu a'u defnyddio i dalu'r Ardrethi Busnes.
 - Byddai gorfod talu eu rhwymedigaeth Ardrethi Busnes llawn yn arwain at galedi sylweddol a chau'r busnes neu nifer sylweddol o swyddi'n cael eu colli.

3.0 Egwyddorion y Polisi

- 3.1 Mae'r Cyngor wedi pennu'r egwyddorion polisi canlynol:
 - Y bwriad yw dyfarnu rhyddhad caledi fel cymorth tymor byr yn unig ac ni fydd yn cael ei ymestyn y tu hwnt i flwyddyn ariannol gyfredol y bil ac ni ddylid ei ystyried fel modd o leihau rhwymedigaeth Ardrethi Busnes am gyfnod amhenodol.
 - Gall ymgeiswyr wneud cais am ryddhad caledi bob blwyddyn ariannol a bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.
 - Bydd y rhyddhad caledi yn eithriad, ac nid rheol.
 - Mae'n rhaid cael tystiolaeth o galedi sy'n cyfiawnhau gostyngiad mewn rhwymedigaeth Ardrethi Busnes.

- Mae'n rhaid i'r Cyngor gael ei fodloni fod y talwr ardrethi wedi dilyn camau rhesymol i ddatrys eu sefyllfa cyn gwneud cais, gan gynnwys cymryd cyngor ariannol.
- Mae budd uniongyrchol i'r talwr ardrethi neu'r gymuned neu ni fydd dyfarnu'r rhyddhad yn cael effaith andwyol ar dalwyr ardrethi eraill neu'r gymuned.
- Mae'r gost i drethdalwyr lleol y Cyngor yn gymesur â'r buddion cymunedol.
- Mae busnes y talwr ardrethi wedi'i effeithio'n andwyol gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y talwr ardrethi, sydd ddim yn rhan o'r risgiau arferol wrth redeg busnes h.y. trychineb naturiol neu ddiwyddiad anarferol neu afreolus yng nghymdogaeth y busnes.
- Gall gwrthod dyfarnu'r rhyddhad arwain at golli'r busnes. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r effaith ar amwynderau lleol, os mai'r busnes yw'r unig un sy'n darparu gwasanaeth penodol yn yr ardal leol h.y. yr unig siop yn y pentref.
- Gall gwrthod dyfarnu'r rhyddhad arwain at golli'r busnes. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r effaith ar ragolygon gwaith yn yr ardal leol h.y. pe bai cau'r busnes yn arwain at nifer uchel o ddiswyddiadau, byddai'n rhaid ystyried yr agweddau cymdeithasol o wella cyfleoedd gwaith a'r effaith negyddol bosib ar ddenu buddsoddiadau pellach yn yr ardal.
- Mae cyllid y Cyngor yn galluogi dyfarnu gostyngiad ac mae'n rhesymol gwneud hynny.

4.0 Y Broses Ymgeisio

- 4.1 Dylid cyflwyno pob cais yn ysgrifenedig, ar y ffurflen berthnasol, gan y talwr ardrethi, eu heiriolwr/sawl a benodir ganddynt neu drydydd parti cydnabyddedig sy'n gweithredu ar eu rhan, y mae'r Cyngor wedi'u derbyn, ac y mae'r talwr ardrethi wedi rhoi'r awdurdod priodol iddynt drafod eu materion.
- 4.2 Dylid cefnogi pob cais, lle bo'n briodol, â chyfrifon ariannol wedi'u harchwilio dros gyfnod o 2 flynedd, gan gynnwys incwm a gwariant, mantolen yn ogystal â thystiolaeth ategol megis cynllun busnes ar gyfer sefydlu sylfaen ariannol gadarn i'r busnes.
- 4.3 Byddwn yn ystyried pob cais yn ôl eu rhinweddau eu hunain. Wrth ddod i benderfyniad unigol, byddwn yn ystyried cyfuniad o'r ffactorau canlynol:

Ffactorau Ariannol

- Incwm ac all daliadau - h.y. beth yw sefyllfa'r sefydliad/ unigolyn yn ariannol. Pa gostau sydd ganddynt a faint o arian sy'n dod i mewn.
- Cronfeydd Wrth Gefn - Oes gan y sefydliad / unigolyn unrhyw gronfeydd wrth gefn, ai mesur dros dro'n unig yw'r caledi, y gellir ei liniaru â chronfeydd wrth gefn.
- Siopau/ meysydd busnes eraill - Ai busnes un safle yw hwn neu a oes meysydd eraill i'r busnes y gellid eu gosod yn erbyn unrhyw galedi.

- Alldaliadau Gormodol - A yw'r caledi'n cael ei achosi gan alldaliadau gormodol, a yw lefelau'r taliadau'n rhy uchel, a yw'r sefydliad/ unigolyn yn rhentu eiddo sy'n rhy fawr neu ddrud.

Hanes a Chynllunio i'r Dyfodol

- Beth oedd y rheswm am y caledi - a oes rheswm cydnabyddedig untro am y caledi, neu ai dim ond masnach sydd wedi arafu, neu nid yw'r busnes yn gynaliadwy hyd yn oed.
- A oes cynllun gwella - a oes gan y sefydliad / unigolyn gynllun gwella i leddfu caledi, ac os felly, beth yw'r siawns o lwyddo.
- A fydd dyfarnu'r rhyddhad caledi yn effeithiol - a fydd y sefydliad / unigolyn yn parhau'n anghynnaladwy hyd yn oed ar ôl dyfarnu gostyngiad yn y rhwymedigaeth i ardrethi annomestig. A fydd yr arian sy'n cael ei wario gan yr Awdurdod yn arwain at unrhyw fuddion hirdymor neu ai oedi'r anorfod a wna.

Colli Amwynder

- Pa effaith fyddai'n ei gael ar y gymuned leol - a fyddai'r gymuned leol yn dioddef pe bai'r sefydliad / unigolyn yn dod i ben.
- A oes unrhyw fusnesau tebyg eraill - pe na bai'r eiddo ym meddiant yr ymgeisydd mwyach, a fyddai sefydliadau / unigolion eraill yn sicrhau na fyddai unrhyw golled neu ddim llawer o golled o ran amwynder.
- Pa ardal / grŵp a wasanaethir gan yr ymgeisydd - a yw'r talwr ardrethi'n gwasanaethu cynulleidfa darged gyfyngedig neu a yw sectorau mawr o gymuned Birmingham yn elwa o'u bodolaeth.
- Eiddo gwag arall? - a oes unrhyw eiddo gwag arall yn yr ardal ac a fyddai eiddo gwag arall yn diraddio'r ardal ymhellach ac yn niweidiol i'r gymuned leol.

Goblygiadau Cyflogaeth

- Nifer y bobl a gyflogir - Faint o bobl sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliad/ unigolyn ac a fyddai eu swyddi mewn perygl pe na bai'r rhyddhad caledi yn cael ei ddyfarnu.
- Faint sy'n byw yn Sir y Fflint - Os dyfernir rhyddhad caledi er mwyn atal colli swyddi, a yw'r gweithwyr hynny'n breswylwyr sy'n cael eu hamddiffyn gan Gyngor Sir y Fflint.
- A yw gweithwyr yn aelodau o'r teulu - A yw'r bobl sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliad / aelod unigol o'u teulu neu a oes unrhyw swyddi gwag sydd ar gael i'r cyhoedd.
- A yw'r gweithwyr wedi'u cymryd o ardal wan o ran cyflogaeth - A yw'r sefydliad/ unigolyn wedi'i leoli mewn ardal lle mae'n anoddach cael swyddi, neu a ydyn nhw mewn ardal lle mae gan y gweithwyr fwy o siawns dod o hyd i swyddi eraill.

Ffactorau Allanol

- Dylid rhoi ystyriaeth pan fydd rhai ffactorau rhanbarthol, cenedlaethol neu fyd-eang sy'n effeithio ar galedi y tu hwnt i reolaeth y sefydliad, yn enwedig pan fo llywodraeth ganolog yn darparu cyllid ychwanegol, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i reolau cymorth gwladwriaethol.

Gall y Cyngor gefnogi ceisiadau am ryddhad caledi o dan y darpariaethau hyn, pan fydd yn fodlon â'r holl gyfrifon canlynol yn unig.

- Mae caledi eithriadol yn cael ei ddangos;
- Mae'r busnes yn gyfrifol am ddarparu amwynder lleol a/neu gyflogaeth i breswylwyr Sir y Fflint;
- Er gwaethaf y caledi hwn, mae gan y busnes ddyfodol credadwy; a
- Bydd dyfarniad tymor byr o ryddhad caledi yn gwasanaethu'n sylweddol i sicrhau dyfodol y busnes, darpariaeth barhaus yr amwynder a/neu gyfleoedd cyflogaeth; a
- Mae darpariaeth gyllidebol ddigonol ar gael i fodloni ymrwymiad y Cyngor i ariannu'r rhyddhad.
- Nid oes lleiafswm o ran cyfnod dyfarnu. Yr uchafswm yw 12 mis, ond byddai hynny ar gyfer yr amgylchiadau prinnaf yn unig.

- 4.4 Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau fel arfer o fewn 28 diwrnod i dderbyn gwybodaeth ddigonol.
- 4.5 Hysbysir y talwr ardrethi o benderfyniad y Cyngor a'r rhesymau dros y penderfyniad yn ysgrifenedig a byddant yn derbyn hysbysiad Ardrethi Busnes diwygiedig os yw'n briodol.

5.0 Cyfyngiadau ar ddyfarnu Rhyddhad Caledi

- 5.1 Dylid dyfarnu rhyddhad caledi unwaith yn unig i bob talwr ardrethi cymwys. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r talwr ardrethi fanteisio ar unrhyw ryddhad a ddyfernir i roi trefn ar eu materion ariannol. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr ailymgeisio am ryddhad bob blwyddyn ariannol, a bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.
- 5.2 Bydd rhyddhad caledi'n cael ei ddyfarnu os oes cyllideb ddigonol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol y gwneir penderfyniad ynghylch y cais.

Mewn amgylchiadau eithafol, lle bydd o bosib angen dyfarnu rhyddhad caledi y tu hwnt i'r ffigwr blynyddol a gyllidebwyd gan y Cyngor, bydd yn cael ei ystyried dan bwerau dirprwyedig a'i gofnodi fel pwysau ariannol os caiff ei ddyfarnu.

- 5.3 Rhaid i ddyfarniad y rhyddhad caledi hwn gydymffurfio â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol. Yn unol â Rheoliadau De Minimis (EC 1407/2013) ni ddylai'r talwr ardrethi dderbyn mwy na chyfanswm o €200,000 o gymorth De Minimis, o fewn y flwyddyn ariannol bresennol neu'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

6.0 Amodau a Dyletswyddau'r Talwr Ardrethi

- 6.1 Mae'r talwr ardrethi'n cytuno bod rhaid iddynt roi gwybod i'r Cyngor ar unwaith, naill ai dros y ffôn neu'n ysgrifenedig, ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau a allai effeithio ar y cais am ryddhad caledi. Bydd methu â gwneud hynny'n arwain at ddiddymu'r swm o ryddhad caledi a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn a bydd yn ofynnol ei ad-dalu i'r Cyngor.

- 6.2 Mae'r talwr ardrethi'n cytuno nad yw unrhyw gais am ryddhad ardrethi mewn unrhyw fodd yn dirymu rhwymedigaeth y talwr ardrethi i dalu Ardrethi Busnes yn ôl y galw.
- 6.3 Ni ddyfernir rhyddhad pan fo'r swm sy'n ddyledus yn deillio o wrthodiad bwriadol neu esgeulustod beius ar ran y talwr ardrethi i dalu Ardrethi Busnes.